

GWEITHGOR AGREGAU RHANBARTHOL DE CYMRU

Datganiad Technegol Rhanbarthol

Papur Materion – Awst 2005

Pwrpas y papur materion hwn yw gosod allan y prif faterion y mae angen ymdrin â nhw er mwyn gwneud y DTRh o fewn yr amserlen a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC). Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1) yn nodi y dylid cwblhau'r DTRh ddeunaw mis ar ôl cwblhau'r adroddiad gallu amgylcheddol pwysig (IMAECA) ym mis Chwefror 2005. Y dyddiad targed yw Medi 2006 felly.

Mae nodau a osodwyd allan yn MTAN1 yn diffinio'r paramedrau ar gyfer penderfynu ar ystod o faterion. Mae'r nodau hyn fel a ganlyn:

* gwneud asesiad rhanbarthol o allu amgylcheddol pob ACM i gyfrannu at gyflenwad digonol o agregau cynradd

* cynhyrchu strategaeth i ddiwallu ar gyfer pob math o agregau yn y rhanbarth yn unol â'r asesiad rhanbarthol, ynghyd â dyraniad o ddarpariaeth agregau yn y dyfodol i bob ACM i ddarparu sail strategol i arwain cynlluniau datblygu unedol

* asesu effaith mewnforion/allforion agregau nawr ac yn y dyfodol

* asesu cyfraniad agregau morol nawr ac yn y dyfodol

* cynghori LICC ar botensial pob rhanbarth yng Nghymru o ran cynyddu'r defnydd o ddefnyddiau amgen i gymryd lle agregau cynradd

Mae'n hanfodol bwysig hefyd i wneud asesiad amgylcheddol strategol, asesiad effaith ar iechyd, ac ymgynghoriad cyhoeddus priodol fel rhan o'r broses DTRh. Bydd gofyn cynnwys y pethau hyn ar ddechrau'r broses.

Felly, bydd gofyn ystyried y materion hyn nawr ac wrth i'r DTRh ddatblygu a bydd yn arwain at ddatblygu ac ystyried nifer o opsiynau ar gyfer cyflenwi agregau yn ardal de Cymru yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Gallu amgylcheddol yn ardal De Cymru

1. Sut ydym yn dehongli canlyniadau'r IMAECA? A fydd yn ddigon i edrych ar y meysydd sy'n nodi gormod o gynhyrchu fel cam cyntaf neu a fyddai angen gorchuddio haenau GIS eraill fel y chwareli presennol a phatrymau cyflenwi er mwyn adnabod yr arferion presennol nad ydynt yn gynaliadwy (naill ai arferion gwaith nad ydynt yn gynaliadwy neu

leoliadau amhriodol)? A ddylid ystyried gormodedd mewn ardal wledig yn yr un ffordd â gormodedd mewn ardal drefol?

Banc tir o gronfeydd a ganiateir ar gyfer creigiau caled

2. Noda adroddiad blynyddol diweddaraf y Gweithgor yn 2003 fod digon o gronfeydd o gerrig ym mhob categori o greigiau caled. Mae'r galw'n debygol o aros yn weddol sefydlog ac ni ddisgwylir unrhyw gynyddiadau mawr yn y 5 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, bydd rhai cronfeydd yn darparu ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn agregau.
3. Sut fydd y tebygrwydd o ail-actifadu'r cronfeydd presennol yn cael ei benderfynu? Faint o gronfeydd sy'n dal yn fyw? A yw eu statws h.y. cwsg, anweithredol neu weithredol yn gwneud gwahaniaeth? A yw'n bosibl adnabod yn sicr y galw presennol a phosibl am adnoddau geolegol (dyraniadau tai/diwydiant/cynlluniau ffyrdd/prosiectau mawr arfaethedig)? Os ydy, sut gellir cadarnhau/amcangyfrif amserlen ar gyfer gweithredu?

Dylanwad cyflenwadau o dywod a gro morol

4. A yw'r sefyllfa bresennol o gyflenwad morol yn debygol o newid? Os yw, beth yw'r amserlen? Os yw newidiadau'n debygol, a yw'n bosibl mesur eu heffaith h.y. mwy o bwysau i ddatblygu adnoddau tywod a gro ar y tir? Pa fath o ddylanwad sydd gan y cyflenwad hwn ar hyn o bryd? A yw fel yr adroddir hyd at 30km o'r rhodfa neu borth neu ai'r daith i'r farchnad yw'r ffactor pwysig?

Tywod a gro a geir o'r tir

5. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o weithfeydd tywod a gro sydd a chyfyngir y rhain i orllewin Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn bennaf. Mae cyfanswm gwerthiannau'n dod i ryw 200,00 tyf ynghyd â chronfa o 11 miliwn tunnell. Bodola adnoddau sylweddol o dywod a gro tir yn sawl un o gymoedd afonydd de Cymru, yn arbennig yr afonydd Wysg, Ewenny, Nedd, Rhymni a Llwchwr. Mae cronfeydd eraill yn bodoli yn ardaloedd Pîl a Chaerffili. Fodd bynnag, cyfyngir yr adnoddau posibl hyn i raddau gan benodiadau amgylcheddol a byddai gofyn ymchwiliadau a phrofion manylach ar lawer ohonynt cyn y gellir dibynnu arnynt fel ychwanegiadau at y drefn gyflenwi bresennol.
6. Mae'r adnoddau heb gyfyngiad wedi eu dosbarthu'n dameidiog ac nid ydynt mewn sefyllfa dda i fodloni darpar farchnadoedd. O ganlyniad, mae'n debyg y bydd pwysau rhyw bryd ar yr adnoddau cyfyng, gan greu problemau o fantoli effeithiau amgylcheddol â'r gofyn i barhau i gyflenwi am resymau economaidd. Yn y cyfamser, mae LICC wedi ceisio sicrhau bod adnoddau'n cael eu diogelu, trwy gyflwyno ardaloedd sy'n cael eu gwarchod yn y CDU. Mae hyn wedi bod yn ddadleuol ac wedi wynebu gwrthwynebiad sylweddol mewn rhai

ardaloedd. Bydd angen mwy o ddadansoddiad manwl o'r adnoddau yn y dyfodol agos er mwyn penderfynu ar adnoddau posibl/economaidd.

Ffynonellau agregau eilaidd

7. Mae defnyddio agregau eilaidd fel ysbail gwaith glo, lludw gorsafoedd pŵer, lludw ffwrneisi dur arch trydan, lludw tanwydd, ysbail dur a thywod ffowndri yn lle agregau cynradd yn un o nodau allweddol MTAN1. A yw'r ffynonellau'n cael eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd ac, os nad ydynt, sut allwn gynyddu'r defnydd o agregau eilaidd/a ailgylchwyd? A oes yna unrhyw ffynonellau newydd (clai llestri) sy'n debygol o fod ar gael ac, os oes, pryd? Pa gyfyngiadau y mae'r math o agregau a lleoliad y farchnad yn eu cael ar ddefnyddio'r defnyddiau? A ellir defnyddio'r defnyddiau at ddibenion o ansawdd uchel yn y pen draw?

Ffynonellau gwastraff adeiladu a dymchwel

8. Noda canlyniadau cynnar arolwg Smiths Gore ar wastraff adeiladu, dymchwel a chwareli yn 2003 fod rhyw 85% o'r gwastraff sy'n addas yn lle agregau'n cael eu defnyddio eisoes. Yn gyffredinol, mae'r defnydd yn diwallu ar gyfer defnydd ar y pen isaf, megis llenwadau ar gyfer gwaith peirianeg, adfer a chapio, ayb. A yw'n economaidd ddichonol i wahanu'r 15% sy'n weddill o'r llif gwastraff? Mae'r ymchwil bresennol a wneir gan yr EA ar safleoedd adeiladu'n ceisio penderfynu pa gyfle sydd ar gael i ddefnyddio'r ffynhonnell hon. Yn anffodus, nid yw'n debygol y bydd canlyniadau'r ymchwil hon ar gael tan yn gynnar yn 2007.
9. Â'r nifer cynyddol o gyfleusterau ailgylchu defnyddiau (CAD) a'r nifer y tybir y bydd gofyn amdanynt erbyn 2010 (gweler Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-Orllewin Cymru), mae'n debyg y bydd swm y gwastraff defnyddiadwy h.y. heb ei gymysgu, a gwastraff adeiladu a dymchwel, yn cynyddu. Mae'r pethau hyn eisoes yn cael eu cymysgu gydag agregau cynradd i wneud cynnyrch priodol sy'n addas i'r farchnad.
10. Awgryma'r sefyllfa bresennol fod y rhan helaeth o wastraff adeiladu a dymchwel defnyddiadwy'n cael ei ddefnyddio ac nad oes ffynonellau sylweddol heb eu defnyddio. Oni bai y ceir newidiadau ariannol sylweddol h.y. cynnydd mewn taliadau claddu sbwriel a/neu'r Dreth Agregau, nid yw amgylchiadau'n debygol o newid. Fodd bynnag, gallai effaith cynlluniau rheoli safleoedd, sy'n ofynnol dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cymdogaethau Glân, annog gostyngiad yn y defnydd o agregau cynradd, ond mae'n anodd mesur yr effaith.
11. A yw'r prif ddefnyddiau ar gyfer gwaith ar safleoedd tir llwyd neu a oes yna weddillion sylweddol a fydd yn newid patrymau cyflenwi e.e. cyfleusterau ailgylchu defnyddiau? A yw'r defnydd pen isaf presennol yn debygol o newid? Os nad yw, a yw'r defnydd hwn yn cystadlu â

gwastraff chwareli yr honnir nad yw mor hawdd i'w farchnata ers y cyflwynwyd y Dreth Agregau?

Dirwyon Creigiau Mâl (gan gynnwys tywod chwareli tywodfaen)

12. Mae'n amlwg bod oddeutu 2 filiwn tunnell o wastraff chwarel yn cael ei bentyrru mewn chwareli ledled Cymru (adroddiad Smiths Gore 2003). Gallai hyn fod yn ganlyniad union neu anuniongyrchol o'r trethi agregau a/neu gladdu sbwriel. Mae'n ymddangos bod gwastraff adeiladu a dymchwel yn cymryd lle'r gwastraff hwn ynghyd ag agregau eilaidd fel llechi yng ngogledd Cymru. Wrth gwrs, mae'r ffynhonnell hon yn agosach i ardaloedd o alw h.y. o fewn ffiniau anheddu neu ger yr ardaloedd hyn. Canlyniad anffodus hyn yw'r posibilrwydd o sterileiddio cronfeydd yn y chwareli oherwydd y gofyn i bentyrru o fewn y ffiniau presennol. A fydd hyn yn arwain at y diwydiant yn ystyried ffyrdd pellach o leihau gwastraff neu a ydynt yn ddigon effeithiol yn barod? Tybir bod y lefelau prosesu mor effeithiol ag y gallant fod fel bod lefel y cynnyrch y gellir ei farchnata'n cael ei fwyhau. Er hynny, mae amgylchiadau pob chwarel yn debygol o fod yn wahanol gan leihau'r gallu i amcangyfrif effaith pentyrrau gwastraff cynyddol ar fywyd y safle.
13. Mae'n anodd mesur effaith y Cyfarwyddyd Gwastraff Cloddio hefyd. Bydd angen archwilio a monitro hyn fel rhan o unrhyw arolwg o'r DTRh.
14. Yn y cyfamser, mae ymchwil ddiweddar a chyfredol yn ceisio dod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer gwastraff chwareli ond mae cymysgedd o'r gofyn am brosesu, lleoliad y chwarel yn agos i farchnad a natur y gwastraff yn mynd yn erbyn ateb syml.
15. Os oes marchnadoedd sylweddol ar gyfer y cynnyrch, a oes unrhyw ddefnyddiau pen uchaf heblaw am is-sylfeini, garddwriaeth, draeniad, ayb? Os nad oes, a ellir penderfynu ar eu dylanwad? A yw costau prosesu h.y. golchi/sgrinio yn dileu'r posibilrwydd o'i ddefnyddio yn lle tywod morol?

Mewnforion/Allforion

16. Heb ymarfer gallu amgylcheddol yn Lloegr yn y dyfodol agos, a ellir penderfynu ar gynladwyedd allforion/mewnforion ar sail y DU gyfan yn hytrach nag ar sail Cymru gyfan? Yn absenoldeb ymarfer cymharol, a oes gwerth ceisio penderfynu ar leoliad ffynonellau PSV uchel eraill yn Lloegr ac a fyddai'r ardaloedd yn dderbyniol o ran eu lefel o allu amgylcheddol? A fydd angen gwneud tybiaethau yn absenoldeb llyw clir gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Adnoddau geolegol

17. Mae'r gronfa ddata o fathau o greigiau a nodir yn yr adroddiad gallu amgylcheddol (IMAECA) yn gychwyn da o ran penderfynu ar natur

farchnata bosibl y gwahanol fathau o greigiau. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill, fel presenoldeb defnydd symudol yn gorchuddio'r adnoddau, diffygion, tirlithriadau a ffactorau lleol, yn ei gwneud hi'n anodd i bennu dewisiadau go iawn heb gynnal archwiliadau manwl ar safleoedd. A fydd hyn yn peryglu ystyriaeth o wahanol opsiynau cyflenwi neu a fydd raid gwneud tybiaethau?

Gallu Chwareli

18. Ni wyddir gallu gwaith rhai chwareli. A fydd y prinder gwybodaeth hwn yn tanseilio ystyriaeth o'r opsiynau yn y dyfodol? A all y diwydiant chwareli ddarparu'r data yn amodol ar ei gadw'n gyfrinachol? Mae problemau o ran cael gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid i Wybodaeth eisoes yn amlwg. Bydd hyn yn gwneud penderfynu ar alw a sut y gellir ei fodloni o leoliadau penodol yn anodd iawn.
19. Mae problemau eraill yn amlwg hefyd, fel hawliau datblygu a ganiateir, sy'n caniatáu amnewid rhai chwareli penodol yn amodol ar gymeradwyaeth sy'n mater o ffurf fel arfer oni bai y gellir dangos effaith ddifrifol ar amwynderau lleol.

Newidiadau mewn dulliau adeiladu/defnyddio defnyddiau eraill

20. Mae'n amlwg y cafwyd newid clir mewn rhai arferion adeiladu o ganlyniad i'r newid parhaus mewn rheoliadau adeiladu, sy'n mynnu effeithiolrwydd thermol uwch mewn adeiladau. Yn ychwanegol, gwnaed a gwneir ymchwil i benderfynu a all pethau fel gwydr, rhwber, ayb gael eu defnyddio yn lle agregau ar raddfa fawr. A oes gofyn i'r DTRh geisio ystyried dylanwad bosibl y defnyddiau hyn neu a yw defnydd bosibl y pethau hyn yn rhy ansylweddol o ran cyfanswm y tunnelli o agregau a gynhyrchir?
21. Dywed adroddiad monitro diweddar gan SDPW am ddwysedd defnydd a rhagolygon galw ar gyfer Cymru

Dylanwadau ariannol

22. A yw'n bosibl rhagweld cynyddiadau yng nghyfradd neu natur y trethi claddu/agregau ac, os yw, pa ddylanwad fyddant yn ei gael ar ddefnyddio agregau cynradd? A yw ymateb y diwydiant chwareli i'r Dreth Agregau, fel y gosodwyd allan yn ymateb y Gymdeithas Cynnyrch Chwareli i'r pwnc hwn (asesiad y QPA o effeithiau'r dreth agregau – Medi 2003) yn rhesymol a chyfiawn? Os nad yw, a yw'n rhesymol gadael y materion hyn tan yr arolwg o'r DTRh?
23. Nid oes gan gyflenwi agregau effaith amgylcheddol allanol. Gwelodd astudiaeth DETR "The Environmental costs benefits of the supply of aggregates in 1998" fod y gost gyfartalog, o'i chymaru â'r allbwn o ffynonellau o wahanol fathau yn y DU, yn £4.60 y dunnell. Fodd bynnag, mae dal i fod ansicrwydd sylweddol o ran lefel gymwys y

costau amgylcheddol, yn bennaf oherwydd bias posibl yn yr amcangyfrifon a graddfa'r bias sy'n amrywio o safle i safle.

Cymhareb poblogaeth i ddefnydd

24. Gwnaed amcangyfrifon (Arup 2003) sy'n nodi bod unigolyn yn defnyddio 5 tunnell o agregau'r flwyddyn ar gyfartaledd. *Os yw awdurdodau'n defnyddio ond nid yn cyflenwi agregau (Abertawe a Thorfaen), a ddylid asesu'r tunelli hyn a'r ardal y disgwylir iddi eu cyflenwi (gan dybio bod agregau neu ddefnyddiau eraill ar gael) yn unol â'r egwyddor o agosrwydd? Byddai hyn yn gorfodi perchnogaeth o agregau mewn ardal benodol a helpu i ledaenu unrhyw effeithiau drwg ac efallai cydnabod gofyn agregau i gynnal ansawdd eu bywydau. Gellid ystyried hyn yng ngham opsiynau'r broses i'w cynnwys yng nghyfnod dyraniadau'r CDLI os yw hyn yn dderbyniol.

Ymgynghoriad cyhoeddus

25. Nid yw llawer o bobl yn gyfarwydd â gwerth cloddio agregau a sut mae'n cynnal ffyrdd o fyw bob dydd. Mae canfyddiad cyffredin bod byw ger chwareli'n cael effaith ddrwg ar iechyd, gwerth tai a chymeriad ardal. Tra bod y diwydiant a SDPW wedi cymryd rhai camau i ymdrin â'r canfyddiad hwn, ni ddylwn tanamcangyfrif yr agwedd negyddol sydd gan bobl at gloddio am fwynau'n gyffredinol. Gallai hyn fod o ganlyniad i brofiadau drwg gyda chwarela neu ddiffyg dealltwriaeth am y diwydiant mwynau. Yn amlwg, mae'n fater y mae'n rhaid i ni ymdrin ag ef ac yn sy'n gofyn y cwestiwn o sut y gellid cyfleu pwrpas ac ystyr y DTRh i bobl er mwyn iddynt ei ddeall a gwneud sylwadau adeiladol.
26. Sut ddylid strwythuro'r ymarfer cyfranogiad cyhoeddus, a fydd yn arwain yr asesiad effaith ar iechyd, felly? A ddylid ei dargedu ar gymunedau sy'n byw ger gweithfeydd presennol neu a ddylid rhoi cyfle i bawb fynegi barn? Yr hyn sy'n amlwg ar hyn o bryd yw bod y Ddeddf Rhyddid y Wybodaeth yn mynnu bod y broses yn agored a bod archwiliad neu gofnod tebyg yn cael ei gadw o'r broses wrth iddi ddatblygu.
27. Datblygwyd peth cyfarwyddyd arfer gorau eisoes (*Good practice for the stakeholder engagement in the aggregates sector - The Environment Council 2004*) a bydd hwn yn ddefnyddiol ar gyfer proses foddhaol sy'n agored i unrhyw archwiliad.

Asesiad Effaith ar Iechyd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

28. Bydd yr asesiadau hyn yn ofynnol i'r DTRh a thra bydd yr adroddiad gallu amgylcheddol IMAECA yn cyfrannu at yr asesiadau, bydd angen gwneud gwaith ychwanegol i ymdrin â materion economaidd gymdeithasol ynghyd â materion amgylcheddol. Disgwylir ymdrin â'r asesiadau hyn trwy ddefnyddio arbenigedd mewnol, megis yr is-grŵp DTRh, i ddechrau. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd hyn yn ddigonol

a bydd gofyn cynllun wrth gefn. Bydd gofyn trafod y mater hwn ymhellach.

29. Rhaid ystyried asesiad effaith ar iechyd (HIA) o'r cychwyn cyntaf a'i ddatblygu wrth i unrhyw opsiynau cyflenwi ddod i'r amlwg. Felly, ni fydd yr effeithiau iechyd posibl yn cael eu cyflwyno'n hwyr nac fel *fait accompli*. Bydd unrhyw ymarfer cynnwys y cyhoedd a wneir fel rhan o'r broses DTRh yn bwydo ac yn arwain y broses HIA.
30. Rhaid ystyried asesiad amgylcheddol strategol (SEA) gan fod y DTRh yn gynllun rhanbarthol/strategol a allai gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ac felly mae'n destun rheoliadau perthnasol. *Bydd yr asesiad hwn yn cwmpasu effeithiau amgylcheddol yn unig – nid rhai economaidd gymdeithasol – ond bydd dal gofyn ei wneud mewn ffordd gynhwysfawr, cadarn ac agored. Fel y soniwyd eisoes, bydd yr adroddiad IMAECA yn ddefnyddiol iawn yn y broses hon, ond rhaid cydnabod y bydd angen i ymgymrwyr statudol, fel yr EA a Chyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n ffurfio rhan o Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, archwilio opsiynau cyflenwi.

Casgliad

31. Gosodwyd y materion uchod allan i ysgogi trafodaeth am y materion allweddol ar gyfnod cynnar ym mhroses y DTRh. Bydd gan bawb syniadau gwahanol am y ffordd y dylid ymdrin â materion a pha mor bwysig ydynt. Fodd bynnag, rhaid i bawb gydnabod y bydd rhai materion yn datblygu ac yn newid dros amser ond mae hyn yn anochel mewn unrhyw broses newydd.